

Cofion

- **Profedigaeth:** Cydymdeimlwn heddiw efo teulu y diweddar Mr Thomas Hughes (Saron) yn eu colled a'u galar. Cofiw'n hefyd am Beryl Jones (Nantglyn) a Joyce Lloyd (Llanfair) sydd wedi colli chwaer a chwaer yng nghyfraith, Mair Edwards, Abergele. Bydded i'r Arglwydd ei Hun eich cysuro â'i ras ac â'i bresenoldeb hyfryd.
- **Ysbytai:** Cofiw'n yn arbennig hefyd am Nerys Roberts-Jones (Llansannan) sydd yn Ysbyty Walton; Meirion Evans (Henllan) yn Ysbyty Glan Clwyd; Thomas Evans (Llanfair) yn Ysbyty Llanellwyr; William Jones (Llanefydd), Elfed Davies (Saron) ac Eirian Davies (Cefn Meiriadog) yn yr Inffirmari. Bu'n rhaid i Guto Jones (Llansannan) ddychwelyd i Ysbyty Glan Clwyd yr wythnos hon, ac yno hefyd y bu Gwyneth Wynne (Henllan). Da deall bod y ddau wedi cael dod adre erbyn hyn. Anfonwn ein cofion hefyd at Helen Pritchard (Tanyfron) ac Edwin Jones (Peniel) - y ddau wedi cael anffawd yn ddiweddar.
- **Gweddïwn hefyd dros ffrindiau** sydd mewn cartrefi gofâl – Mr Howell Jones (Bryn yr Eglwys); Mr Gwilym Foulkes (Dolwen); Mrs Mair Roberts, Mrs Morfudd Davies, a Miss Hannah Alice Jones (Yr Hen Ficerdy); Mr Aneurin Evans (Park Lodge); Mrs Eiddwen Jones a Mrs Myra Hughes (Maes Elwy); Miss W J Roberts (Yr Hen Ddeondy); Mrs Jane Jones (Southern House); a Mr Harold Lloyd (Hafan Gwydir) ac am bawb arall o'r Fro sy'n parhau yn ein gweddïau y dyddiau hyn.

Diolch

Mae Meirion yn dymuno diolch o galon i bawb wnaeth gyfrannu at yr oedfa arbennig nos Sul diwethaf. Diolch i'r rhai gymerodd ran, i'r rhai gyfrannodd fwyd, y rhai oedd yn gweini, ac i bawb am ddod i gefnogi. Diolch hefyd am y rhodd garedig a'r dymuniadau da. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.

Gwyl Gristnogol Llanw - Ebrill 25 - 29

Os oes digon o ddiddordeb, byddwn yn trefnu bws mini i fynd i Llanw am ddwy noson. Y nôd yw cynnig trafndiaeth a llety ar gyfer y bobl hynny sy'n dymuno mynd i'r wyl ond sydd ddim yn gallu mynd eu hunain nac aros mewn carafan. Byddwn yn defnyddio llefydd Gwely a Brecwast yng Nghei Newydd ac yn eich cludo rhwng y pentref a'r wyl yn y bws mini. Bydd y pris yn dibynnu ar y llety a nifer y bobl sy'n mynd, ond dim ond lle i 16 sydd ar y bws mini. Felly os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ag Elinor (870534) yn fuan!

I ddod

- **Cymdeithas Lenyddol Cefn Berain** yn cyfarfod Nos Iau, Chwefror 17eg, am 7.00 pryd y bydd Elen Lloyd yn sgwrsio am 'Cam wrth Gam'. Croeso i bawb.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 6^{ed} Chwefror 2011

Gwell sefyll wrth y drws yn nhŷ
fy Nuw na thrigo ym mhebyll
drygioni. (Salm 84:10)

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Croeso cynnes i chi i gyd i oedfaon y dydd a gobeithio y bydd cwmni'r Arglwydd a chymdeithas ein gilydd yn felys i bob un ohonom heddiw. Braff yw gwybod bod llawer ohonoch yn gweddïo am fendith a bod gweddïau yn codi o'r newydd cyn yr oedfaon a'r ysgolion Sul. Diolch i bawb sy'n codi deisyfiadau gerbron Duw fel hyn a hyderwn y bydd Duw yn ffyddlon - fel ag erioed - i fendithio ei Air yn ein plith. 'Gweld yr Iesu - dyna ddigon ar y ffordd i enaid tlawd' yn ôl yr emyn - a gobeithio y bydd hyn yn wir am ein calonnau ninnau heddiw.

Mae'r gyfres nos Sul ar ddywediadau "Myfi yw" yr Arglwydd Iesu yn mynd rhagddo. Yr un nesa yn y gyfres a'r un y byddwn yn sylwi arno heno yw'r lleiaf cyfarwydd mae'n debyg - "Myfi yw drws y defaid..." Ond eto mae'r darlun yn un eithriadol o gyfarwydd i bob ffermwr defaid.

Drws sy'n arwain i mewn ac allan o ddiogelwch y gorlan yw'r un a ddefnyddir gan Iesu i ddisgrifio ei hun. Un drws sydd i'r gorlan ac un drws sydd at Dduw. Iesu, fel Mab Duw ac fel Mab y Dyn, yw'r unig ddrws hwnnw. Mae person Iesu yn unigryw - does 'na neb tebyg iddo! Mae'n Dduw ac yn ddyn ac felly mewn sefyllfa berffaith i fod yn ddrws rhyngom â Duw i ni allu mynd trwyddo i bresenoldeb Duw.

Mae pob drws yn gwneud dau beth - agor a chau! Wrth gredu neu beidio yn Iesu y byddwn ni bob un yn cael mynd i mewn neu beidio at Dduw ac i ddiogelwch y gorlan. Mae ein holl berthynas hefo Duw yn cael ei benderfynu gan y berthynas sydd gennym hefo Iesu. Yr hyn 'dan ni'n ei feddwl o Iesu - a beth 'dan ni'n ei gredu am Iesu a'i Arglwyddiaeth drosom - yw'r pethau pwysicaf oll i bob un ohonom eu hystyried.

Ein gobaith hefo'r gyfres nos Sul yw y bydd pawb yn gallu dod i wybod mwy am yr hyn y mae'r Iesu yn ei ddweud amdano'i hun a thrwy hynny y bydd yr Ysbryd Glân yn ein goleuo a dod â ni i gredu ac ymddiried fwyfwy ynddo.

Mae 'na sawl drws wedi agor a chau yn ystod y 'fffenestr drosglwyddo' yr wythnos yma. Yr un gafodd y penawdau bras oedd Fernando Torres wrth gwrs. Drws Anfield yn cau a drws Stamford Bridge yn agor. A drws banc neu ddau yn agor hefyd! Rhyfedd ydi'r busnes 'gwerth' 'ma. Pam fod Chelsea yn fodlon talu £50 miliwn am gael gweld Torres yn cerdded i mewn trwy'r drws? Disgwyl cael eu pres yn ôl rhywsut mae'n siŵr - mwy o goliau, mwy o gwpanau, mwy o gyhoeddusrwydd a gwerthu mwy o grysau!

Mae'n rhaid fod Duw yn gweld rhyw werth anhygoel ynom ni pan feddylwch chi ei fod wedi ein prynu, nid ag arian ac aur, ond â gwerthfawr waed Crist er mwyn ein gweld ni yn cerdded i mewn trwy'r Drws ato fo ei hun!

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Llun **Grŵp genod blynyddoedd 7-11** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
Adnabod Addoli yn Festri Llansannan am 8.00
- Mawrth **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30
- Iau **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- Gwener **C.I.C.** (Clwb Ieuentid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15
- Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa undebol **yn Groes** am 2.00. Yn ystod yr oedfa, fe wneir casgliad arbennig tuag at Hosbis San Cyndeyrn.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa undebol **yn Groes** am 2.00. Yn ystod yr oedfa, fe wneir casgliad arbennig tuag at Hosbis San Cyndeyrn. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Meirion yn arwain oedfa undebol **yn Groes** am 2.00. Yn ystod yr oedfa, fe wneir casgliad arbennig tuag at Hosbis San Cyndeyrn. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00, gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod yn Henllan.
- Sul nesaf Bydd y Parch Ioan Davies yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn arwain oedfa gymun yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Dewi Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 11.15.
- Llun Cyfarfod y Chwirydd yng Nghefn Berain am 7.00 gyda Mary Mars Lloyd yn dangos gwaith llaw.
- Sul nesaf Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 11.15, a'r amser i'w drafod ar gyfer Ysgol Sul Cefn Berain.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair - 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i
Aneurin - 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau